

Tasg 1

Golau glas disglair

Tasgau darllen a deall ac iaith

1. Gyda phartner, **trafodwch** pam mae'r geiriau hyn yn y darn, heb edrych yn ôl arno os gallwch chi:

glas	browngoch	trofannau	ysglyfaethwyr	newid hinsawdd
-------------	------------------	------------------	----------------------	-----------------------

2. Dewiswch y gair gorau i orffen pob brawddeg.

Ticiwch **un** bob tro.

a. Mae bioymoleuedd yn cael ei gynhyrchu gan bethau ...

trofannol

diddorol

byw

marw

b. Mae'n digwydd pan fydd plancton, er enghraifft, yn teimlo o dan ...

ddylanwad

fygythiad

draed

deimlad

c. Yng Nghymru, mae'r ffenomen ...

ar drai

ar fynd

ar ddyletswydd

ar gynnydd

ch. Mae hyn oherwydd bod tymheredd y dŵr yn ...

is

uwch

sefydlog

gyson

3. Edrychwch eto ar y gair **bioymoleuedd**. Roedd y darn yn sôn am sut mae'r elfen 'ym' yn cyfeirio at 'ei hunan', e.e. ymolchi.

Felly, rydych chi'n **golch rhywbeth** ond yn **ymolch** (golchi eich hunan).

Dyma ragor o enghreifftiau. Rhowch y rhain mewn brawddegau ystyrlon, a'u defnyddio hefyd ar lafar.

ymbaratoi: paratoi eich hunan
Mae'n rhaid i mi ymbaratoi i fynd ar wyliau; bydd angen pacio cês.
ymdawelu: tawelu eich hunan
ymsythu: gwneud eich hunan yn syth
ymatal: atal eich hunan (e.e. rhag dweud / gwneud rhywbeth)
ymbwyllo: pwylllo eich hunan (e.e. rhag gwneud rhywbeth)
ymchwyddo: chwyddo eich hunan
ymesgusodi: esgusodi eich hunan
ymwrthod: gwrthod rhywbeth i chi eich hunan (ymwrthod â rhywbeth)
ymbellhau: symed eich hunan yn bellach (oddi wrth rywun, o rhywbeth)

4. Edrychwch eto ar y frawddeg hon:

Felly, **mae'n debygol iawn y byddwn ni'n gweld** mwy a mwy o olau glas disglair y plancton yng Nghymru yn y dyfodol!

Dyma'r patrwm: **Mae'n debygol + y + bydd ... + yn + berfenw** (gweld)

Dyfodol bod:

byddaf i	byddwn ni
byddi di	byddwch chi
bydd e / o, hi	byddan nhw

Lluniwch chwe brawddeg arall sy'n dilyn yr un patrwm. Gweithiwch drwy bersonau'r ferf, h.y. byddaf i, byddi di ... ac ati.

a.	
b.	
c.	
ch.	
d.	
dd.	

Wedyn, meddyliwch am ansoddeiriau eraill y gallech chi eu defnyddio yn lle 'tebygol' a lluniwch ddwy neu dair brawddeg eto.

a.	
b.	
c.	